YSGOL BRYNREFAIL

GWEITHDAI – CROCHAN A FFWRNAIS

Ym mis Medi fe dderbyniodd Ms Siân Owen, Pennaeth yr Adran Gelf, wahoddiad gan y Galeri, Caernarfon I ymuno a phrosiect gyda'r artist lleol Megan Broadmeadow. Cynhaliwyd y gweithdai gwreiddiol dros dridiau ym mis Medi I griw o ddisgyblion blwyddyn 11 sy'n eistedd eu harholiadau TGAU eleni. Nòd yr holl brosiect oedd creu ffilm gref a ddychanol gan ddefnyddio'r Arwisgiad yn 1969 fel ysbardun creadigrwydd. Bydd y ffilm orffenedig yn cael ei ddangos fel rhan o ŵyl fawreddog fydd yn cymryd lle yn y castell yn 2012.

Yn ystod eu hamser yn gweithio gyda Megan Broadmeadow rhoddwyd cyfleoedd eang i feithrin eu sgiliau creadigol trwy ddefnyddio galluoedd dychmygus a sythweledol trwy greu delweddau ac arteffactau gwreiddiol a gwerthfawr.

Y mae Megan Broadmeadow yn artist aml- ddisgyblaeth, wedi ei lleoli ym Mae Colwyn, ac yn gweithio mewn cerfluniaeth, perfformiad a fidio.